

## PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG 9/3/16

### YN BRESENNOL:

Y Cyngorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)  
Y Cyngorydd Selwyn Griffiths (is-gadeirydd)

Y Cyngorwyr: Jason Humphreys (Cyngor Gwynedd), ynghyd â Gavin Buckley (Cynrychiolydd Cyngor Tref Porthmadog), Dr John Jones-Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden), Robert Owen (Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol) a Peter L. Williams (Cynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Llŷr B Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Arthur Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), Malcolm Humphreys (Harbwr Feistr Porthmadog) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cyngorydd Mandy Williams-Davies (Aelod Cabinet – Economi), David Eastwood (Cynrychiolydd Buddiannau Harbwr) a David McLean (Cynrychiolydd Buddiannau Perchnogion Tir).

### 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 2. MATER BRYD

Nododd Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden bod Clwb Hwyllo Porthmadog wedi cysylltu gyda'r cwmni a osododd pontwns yn yr Harbwr yng nghyswllt gosod pontwns ar wal yr Harbwr. Byddai'r cynllun yn cynnwys cyfleuster i alluogi'r anabl i'w defnyddio. Roedd y Clwb Hwyllo cyn cychwyn y cyfarfod wedi derbyn dyfynbris ar gyfer y gwaith ac y byddent yn cysylltu efo'r Gwasanaeth Morwrol gyda mwy o fanylion.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd:

- Cefnogaeth i'r egwyddor.
- Yr angen i dderbyn caniatâd cynllunio a chaniatâd gan CADW ac eraill cyn mynd ymlaen efo'r gwaith.
- Yr angen i gymryd i ystyriaeth yr effaith weledol.
- Y byddai'r bwriad yn golygu colli angorfeydd felly bod angen pwysu a mesur yr effaith ariannol yng nghyswllt incwm yr Harbwr a chostau rheoli/cynnal a chadw.
- Effaith y llif.
- Yr angen i ystyried defnyddwyr eraill yr Harbwr.
- Anogir y Clwb Hwyllo i ymgynghori'n lleol gan gynnwys y Cyngor Tref.

### PENDERFYNWYD:

- Nodi cefnogaeth i'r egwyddor;**
- Cynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Ymgynghorol pe derbynnir mwy o fanylion cyn dyddiad y cyfarfod nesaf.**

### 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Hydref, 2015, fel rhai cywir.

Nododd Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden bod golau ar bontŵn *Madog Yacht Club* yn weithredol.

#### **4. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL**

Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr aelodau drwy'r adroddiad, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Ni dderbyniwyd sylwadau o ran y Cod Diogelwch Morwrol yn y cyfnod ers y cyfarfod diwethaf
- Rhagwelir y bydd archwiliwr o adran polisi Asiantaeth Gwylwyr y Glannau yn ymweld â'r Cyngor yn ystod yr Hydref er archwilio'r Cod cyfredol ac i gynghori ar unrhyw welliannau.
- Y gwaredwyd llongddrylliad a oedd yn achosi perygl a chymerwyd camau i waredu cwch wedi ei leoli ar Gei Balast gan roi rhybudd terfynol i'r perchennog.
- Bod y cwch ar y llithrfa lle'r oedd unigolyn yn trigo arni wedi ei symud mewn ymateb i bryderon.
- Bod 6 rhybudd i forwyr mewn grym gan fod rhai o'r cymhorthion mordwyo oddi ar eu safle ac nad oedd wedi bod yn bosib i'w gosod yn ôl ar eu lleoliad cywir hyd yn hyn oherwydd y tywydd anffafriol. Gobeithir cwblhau'r gwaith o'u lleoli yn y bythefnos nesaf.
- Bod Cwch y Dwyfor yn cael ei chynnal a chadw gan gwmni *Partington Marine* ym Mhwillheli ar hyn o bryd gyda gwaith anorfod yn mynd rhagddo.
- Cynhaliwyd archwiliad gan Awdurdod Goleudai Tŷ'r Drindod ar 24 Chwefror 2016. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at ddiffyg y gwasanaeth i gydymffurfio â gofynion 'Panar' ac yn tynnu sylw fod angen caniatâd Tŷ'r Drindod cyn newid lleoliad cymhorthyddion mordwyo. Nodwyd nad oedd yn ymarferol bosib bob tro i dderbyn caniatâd ymlaen llaw.
- Bod gwaith cynnal a chadw angorfeydd wedi ei gwblhau heddiw a byddai'r buddsoddiad o fudd mawr i'r Harbwr.
- Y derbyniwyd 97 o geisiadau am angorfeydd blynyddol gyda 92 gan unigolion a oedd yn dychwelyd.
- Y buddsoddiwyd mewn system Teledu Cylch Cyfyng (TCC) newydd o safon a fyddai'n arf o ran trosedd ac anrhefn.
- Y sefyllfa gyllidebol hyd at ddiwedd Chwefror 2016, gan nodi bod yr incwm a dderbynnir o ran ffioedd maes parcio'r Harbwr yn gymorth mawr i sicrhau cyllideb a oedd yn gyffredinol gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- Bod ffioedd blwyddyn ariannol 2016-17 wedi cynyddu 1% ac fe unionwyd taliad cofrestru badau dŵr o ran ceisiadau trwy'r post a cheisiadau a wnaed yn Swyddfa'r Harbwr.
- Bod cyfnod secondiad yr Harbwr Feistr wedi ei ymestyn tan ddiwedd Medi 2016 gyda chynllun datblygu mewn lle o ran cyrraedd gofynion y swydd.
- Ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Arfaethedig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig Arfaethedig, nodwyd y dylai'r mudiadau, pe dymument, gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad yn uniongyrchol.

Gwnaed cais am farn yr aelodau o ran ail-leoli'r *Fairway buoy*, nodwyd bod Tŷ'r Drindod yn gefnogol i'r egwyddor. Nododd Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden y gellir symud y bwi ychydig ond bod angen ystyried bod ceg yr harbwr yn symud. Nododd Cynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub bod y sefydliad wedi trafod y mater ac yn cynghori na ddylid ail-leoli'r bwi. Nododd Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol bod y bwi yn y lleoliad anghywir ac nad oedd morwyr o gyfeiriad Pwllheli yn ei weld.

Adroddwyd y derbyniwyd cais gan unigolyn i werthu lluniaeth ysgafn ar dir yr Harbwr, nodwyd bod 1 goddefiad presennol ar gyfer gwerthu hufen iâ. Nododd yr Aelod Lleol ei fod yn agored i'r opsiwn. Nodwyd pe rhoddir goddefiad y cynhwysir cymal eithrio rhag

## PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG 9/3/16

gweithredu pan gynhelir digwyddiadau. Nododd aelodau y dylid siarad efo cwmnïau ar y cei cyn parhau ac ystyried cynnal proses tendro ar gyfer y goddefiad er sicrhau tryloywder a rhoi cyfle i bawb. Dylid yn ogystal ystyried effaith lleoli'r fan ar naws yr ardal ac ansawdd gweledol y fan gwerthu lluniaeth ysgafn.

Manylodd yr Harbwr Feistr ar y rhaglen waith cynnal a chadw a gofynnwyd i aelodau hysbysu'r gwasanaeth o unrhyw waith arall sydd angen ei wneud. Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, nodwyd y symudir y cynhwysydd ger Swyddfa'r Harbwr.

Llongyfarchodd y Cadeirydd yr Harbwr Feistr ar ymestyniad ei secondiad i'r swydd.

Yn ystod y cyfarfod ymatebwyd i sylwadau gan yr aelodau gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fel a ganlyn:

- Y llunnir amodau defnydd ar gyfer unigolion oedd yn byw ar eu cychod i'w gyplysu efo Rheoliadau'r Harbwr ac fe'u rhoddir gerbron y Pwyllgor Ymgynghorol i dderbyn cymeradwyaeth.
- Yr ail edrychir ar y sefyllfa o ran parcio a chadw cychod ar y gwair ym Morth-y-gest.
- Y cydnabyddir y pryder o ran bwiau ddim ar eu safle ac fe gynghorir bob defnyddiwr i gysylltu efo Swyddfa'r Harbwr cyn dod i mewn i'r Harbwr er osgoi iddynt fynd i drafferthion.
- Yng nghyswllt Gorchymyn Parcio'r Cyngor, byddai incwm maes parcio'r Harbwr yn parhau i ddod i'r Harbwr yn unol â'r cytundeb presennol.

### 5. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 12 Hydref, 2016.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.35pm a daeth i ben am 6.40pm

---

**CADEIRYDD**